CYLCHGRAWN UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

Yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Rhifyn Tachwedd '26



EDRYCH YN ÔL I'R GORFFENNOL

Rhun Llwyd

tudalen 12

FFONAU SYMUDOL



tudalen 5

DOD I ADNABOD

RYAN JENKINS

YSGOL GYFUN CWM RHYMNI

tudalen 8





CYNHADLEDD FLYNYDDOL UCAC 2027

09-10 Ebrill 2027

Gwesty'r Village

ABERTAWE

Mewn Undeb Mae Nerth

3 Cyfryngau
9 Y Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol
16 Y Byd Addysg Bellach

EISTEDDFOD
Y Garreg Las



Diolch i bawb alwodd i'n gweld yn Eisteddfod y Garreg Las ym mis Awst. Bu'n Eisteddfod lwyddiannus iawn, yr haul yn gwenu a'r croeso'n gynnes. Roedd hi'n braf iawn cael cyfle i groesawu aelodau presennol, cyn-aelodau a darpar aelodau a ffrindiau i'n stondin.

Llongyfarchiadau mawr i Rhian Edwards, enillydd yr hamper. Gobeithio iddi fwynhau'r danteithion o Gymru.











CROESO, IONA!



Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld nifer o newidiadau o ran staff UCAC. Ychydig cyn gwyliau'r haf, ffarweliwyd â Siân James, y Swyddog Cyllid. Rydym yn ddiolchgar iawn i Siân am ei holl waith caled, trylwyr a gofalus ac yn dymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Rydym yn croesawu Iona Bailey i'r tîm ac yn dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd. Mae cyfle i ddod i adnabod Iona'n well ar dudalen 18.

Mae'r rhifyn hwn o'r Athro yn trafod materion sy'n ymwneud â'r dyfodol, y presennol a'r gorffennol.

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau ei ddarllen! Os oes gennych syniadau am yr hyn yr hoffech ei weld yn y rhifynnau nesaf, anfonwch neges at ucac@ucac.cymru.

CYFRYNGAU
Non Stevens

Elusen yw Into Film Cymru sy'n ysbrydoli ac yn ysgogi athrawon i gynnwys dysgu am ffilm a dysgu drwy ffilm i'w darpariaeth addysgol. Mae'n ymwybodol iawn o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru a'r cyrsiau TGAU a TAAU newydd. Yn yr erthygl isod mae Non Stevens o Into Film Cymru yn myfyrio ac yn codi cwestiynau am y berthynas rhwng yr hyn sy'n digwydd yn y dosbarth a'r cyfleoedd a ddaw i'r disgyblion hynny yn sgil eu hastudiaethau. Beth sydd angen ei wneud er mwyn cefnogi ein pobl ifanc ar eu llwybr o'r dosbarth i fyd gwaith?



Yr Actor, a Llysgennad Into Film, Matthew Rhys mewn digwyddiad arbennig a drefnwyd gan Into Film Cymru a'r Welsh National Theatre

O'r Ystafell Ddosbarth i'r Byd Gwaith: Cyfoethogi ac Ehangu'r Cyfleoedd i Bobl Ifanc ddysgu am y Sector Sgrin yng Nghymru

Mae Cymru yn meddu ar draddodiad cryf o adrodd straeon. O gynyrchiadau teledu a ffilmiau byd-enwog, i gemau fideo, animeiddio a chynnwys digidol arloesol, mae talent Cymru'n cyfrannu at gynnydd a llwyddiant y sector sgrin rhyngwladol ar bob lefel.

Wrth gwrs, rhaid ymfalchïo yng nghampau actorion amryddawn fel Matthew Rhys, Gerran Howell, Leisa Gwenllian a Morfydd Clark. Ond rhaid cydnabod y dalent y tu ôl i'r camera hefyd. Mae cannoedd o Gymry'n llwyddo fel cynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, awduron, golygyddion, dylunwyr ac arbenigwyr technegol. Mae Lauren Evans o'r Hendy yn enghraifft wych, gan iddi'n ddiweddar dderbyn gwobr BAFTA Cymru am ei chyfraniad nodedig i grefft y diwydiant sgrin. Mae stori Lynwen Brennan o Sir Benfro yr un mor ysbrydoledig. Bellach hi yw Cyd-Lywydd Lucasfilm, cartref cyfresi a ffilmiau Star Wars ac Indiana Jones.

Dyma sector sy'n cynnig amrywiaeth eang o swyddi ac sy'n galw am ystod eang o sgiliau, diddordebau a thalentau. Ar hyn o bryd, mae athrawon ledled Cymru'n brysur yn paratoi cynlluniau gwaith, gwersi a darpariaeth ar gyfer y TGAU Cyfryngau Digidol a Ffilm newydd, ynghyd â'r Gyfres Sgiliau a'r cymwysterau TAAU newydd. Mae'r cymwysterau hyn yn rhoi cyfle i'r genhedlaeth nesaf o dalent greadigol Cymru ddatblygu eu sgiliau creadigol, technegol a dadansoddol, gan eu paratoi ar gyfer gyrfaoedd y dyfodol.



Person ifanc yn cymryd rhan mewn gweithdy gwneud ffilm Into Film

Ac felly, dyma arwain at ambell gwestiwn pwysig. Os yw Cymru'n buddsoddi yn y cymwysterau newydd hyn, beth yw ein rôl ni fel elusen addysg i gefnogi addysgwyr a phobl ifanc i wneud y mwyaf o'r cyfle? Beth yw rôl y sector ei hun? A beth sydd ei angen er mwyn sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn gallu symud yn hyderus o addysg i gyflogaeth?

Yn Into Film Cymru, ry'n ni'n gweithio gydag ysgolion, addysgwyr a phartneriaid ledled y wlad i helpu pobl ifanc ddatblygu eu creadigrwydd, eu hyder a'u dealltwriaeth o'r sector sgrin. Trwy adnoddau addysgol, gweithdai, digwyddiadau gyrfaoedd, clybiau ffilm, Gŵyl Into Film a chyfleoedd i gwrdd â gweithwyr proffesiynol y diwydiant, mae miloedd o bobl ifanc yng Nghymru eisoes yn cael blas a phrofiad o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn dangos yr awydd, y dalent a'r potensial sydd ymhlith pobl ifanc Cymru. Mae hefyd yn dangos pa mor bwysig yw partneriaethau rhwng ysgolion, cyflogwyr a sefydliadau fel Into Film Cymru wrth gysylltu addysg â'r byd gwaith. Trwy ddod â phobl ynghyd, rhannu arbenigedd a chreu cyfleoedd ymarferol, gallwn helpu mwy o bobl ifanc i ddeall pa gyfleoedd gwaith sydd ar gael a magu'u hyder i fynd amdani.

Ond er bod newidiadau cadarnhaol ar droed ac ystod o gyfleoedd ar gael, mae angen edrych ar y ddarpariaeth ar lefel genedlaethol gydlynol - mae angen strategaeth a gweledigaeth glir, sy'n edrych ar bob cam o'r broses o fyd addysg i'r byd gwaith, cyfleoedd cynhwysol, hygyrch a theg. Un enghraifft bwysig yw'r angen am fodel profiad gwaith effeithiol ac effeithlon. Yn wir, yn aml, mae mynediad at gyfleoedd o'r fath yn parhau'n ddibynnol ar ffactorau y tu hwnt i reolaeth pobl ifanc, megis ble maent yn byw neu eu cysylltiadau personol, gydag 81% o gyfleoedd profiad gwaith yn cael eu trefnu gan rieni neu'r bobl ifanc eu hunain.



Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithdy gwneud ffilm yng Nghaerdydd fel rhan o brosiect Into Film

Mae ymchwil Youth Census UK diweddar yn ategu hyn, gyda 57% o bobl ifanc yn nodi diffyg profiad gwaith fel rhwystr i gyflogaeth. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod pobl ifanc sydd wedi cael profiad gwaith cyn 16 oed yn llawer llai tebygol o ddod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Wrth gynnal prosiectau peilot profiad gwaith ein hunain, ry'n ni'n gweld sut y mae cyfleoedd o'r fath yn helpu pobl ifanc i ddatblygu hyder, ehangu eu gorwelion, adeiladu rhwydweithiau proffesiynol a deall sut y gall eu sgiliau a'u diddordebau arwain at yrfa. Mae cwrdd â gweithwyr proffesiynol, ymweld â gweithleoedd a chael profiadau uniongyrchol o ddiwydiannau fel y sector sgrin yn gallu bod yn gam allweddol wrth droi diddordeb yn uchelgais, ac uchelgais yn gynllun realistig ar gyfer y dyfodol.

Gyda'r sector sgrin yng Nghymru yn ffynnu a thechnoleg yn newid ac esblygu bob dydd, dyma gyfle euraidd i Gymru edrych ymlaen a chynllunio ar gyfer cenhedlaeth nesaf gweithlu creadigol y genedl. Fel y dywedodd Matthew Rhys, Llysgennad Into Film, mae Cymru yn "**genedl fach ond pwerus**". Drwy fuddsoddi yn ein pobl ifanc - eu creadigrwydd a'u talent, gallwn sicrhau bod mwy o straeon am Gymru, wedi'u gwneud yng Nghymru a chan Gymry, yn cael eu rhannu, eu gwylio a'u dathlu ledled y byd.

FFONAU SYMUDOL

Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ymgynghori ar y defnydd o ffonau symudol yn ein hysgolion. Cofiwch fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud eich dweud:



[Datblygu polisi ffonau symudol: canllawiau drafft i ysgolion | LLYW.CYMRU]

Beth yw'r sefyllfa ledled y byd?

Yn ôl ymchwil gan UNESCO (How many countries have phone bans in school? | Global Education Monitoring Report) y tuedd ar hyn o bryd yw gwahardd ffonau symudol mewn ysgolion. Mae mwy a mwy o wledydd yn gweld yr effaith negyddol y mae ffonau clyfar yn eu cael ar allu dysgwyr i ganolbwyntio ac ar lesiant dysgwyr.

Mae tua 58% o wledydd y byd bellach yn gwahardd ffonau symudol mewn ysgolion. Mae'r cynnydd yn y gwledydd sy'n gwahardd ffonau wedi bod yn gyflym iawn. Ym mis Mehefin 2023, dim ond 24% o wledydd oedd yn gwahardd ffonau symudol mewn ysgolion, roedd y ganran wedi cynyddu i 40% erbyn 2025 ac erbyn mis Mawrth 2026 roedd y ganran wedi cynyddu bron i ugain pwynt canran.

Yng Nghynhadledd UCAC ym mis Ebrill 2026, cafwyd cynnig penodol a oedd yn ymwneud â ffonau symudol. Cyflwynwyd y cynnig hwn gan yr Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith ac fe'i pasiwyd yn unfrydol.

Cyd-destun y cynnig:

Yn sgil penderfyniad y Llywodraeth i beidio rhoi arweinaid Cenedlaethol ar y defnydd o ffonau symudol yn ysgolion Cymru, mae nifer o ysgolion wedi dewis defnyddio cwmnïau amrywiol i ddarparu dulliau diogel o gloi ffôn yn ystod y diwrnod ysgol.

Y cynnig:

Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i ddewis un darparwr Cenedlaethol ac i ariannu un dull o gloi ffôn yn ddiogel yn ystod diwrnod ysgol, gan roi arweiniad clir ar ei ddefnydd a chadw costau yn isel.

Mae angen cysondeb, eglurder a chanllawiau pendant ar ysgolion o ran ffonau symudol. Bydd UCAC yn nodi hyn yn glir yn ei ymateb i'r ymgynghoriad. Siaradodd nifer o fynychwyr y Gynhadledd am eu profiad nhw wyneb yn wyneb â ffonau symudol. Roedd rhai mynychwyr wedi bod yn rhan o gynllun peilot gyda'r disgyblion yn rhoi eu ffonau mewn waled gloadwy ar ddechrau'r diwrnod ysgol a'r waled yn cael ei datgloi ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Roedd ein haelodau yn siarad yn gadarnhaol iawn am y dull hwn ac yn gweld gwahaniaeth yn ymddygiad disgyblion a hefyd yn tystio bod mwy o gymdeithasu a sgwrsio yn digwydd yn ystod amseroedd egwyl a chinio.

Nodwyd hefyd fod cwmnïau bysiau yn dweud fod llai o fandaleiddio yn digwydd ar fysys, gan fod y disgyblion yn brysur ar eu ffonau ar y daith adref o'r ysgol! Canlyniad annisgwyl efallai, ond yn sicr yn ganlyniad cadarnhaol ac yn un i'w groesawu.



Y DYFODOL

CYRSIAU GALWEDIGAETHOL – TAAU

Erbyn hyn mae holl gyrsiau Ton 1 a Thon 2 TGAU 'Gwneud i Gymru' wedi eu cyflwyno yn ein hysgolion ac ym mis Medi 2027, bydd ysgolion Cymru yn cyflwyno cyrsiau galwedigaethol ar gyfer y cymhwyster TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd). Bydd y cymwysterau TAAU ar yr un lefel â chyrsiau TGAU, ond yn gymwysterau ymarferol.

Un sy'n gyfarwydd iawn â'r cyrsiau newydd hyn yw Rhys Richardson, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae e wedi chwarae rhan flaenllaw yn y broses o lunio cyrsiau TAAU mewn Cynhyrchu a Chyfryngau Creadigol a Thechnoleg. Mae e'n gyffrous am y newidiadau a'r cyfloeoedd y mae'r cyrsiau newydd hyn yn eu cynnig. Yn ei farn ef, mae Cymru ar flaen y gad ac yn 'gwneud rhywbeth gwirioneddol nodedig' wrth lunio cyrsiau galwedigaethol ar yr un lefel ac â'r un statws â chyrsiau TGAU mwy traddodiadol.



Fodd bynnag, mae e'n nodi fod problem ymarferol ynghlwm wrth y cymwysterau newydd hyn. Mae'n rhaid holi'r cwestiwn a oes gan ysgolion y cyfarpar a'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y cyrsiau newydd?A oes rhywun wedi meddwl am oblygiadau'r cyrsiau ymarferol hyn i ysgolion? Mae'r cyrsiau newydd hyn yn cael eu cyflwyno ar adeg pan fo ysgolion yn wynebu heriau ariannol enfawr. Rydym yn cymryd yn ganiataol fod angen labordy ar gyfer dysgu gwyddoniaeth ac angen gweithdy ar gyfer dysgu technoleg a chegin ar gyfer gwersi technoleg bwyd ac arlwyo. Mae gan y cyrsiau galwedigaethol ofynion sylfaenol, er mwyn gallu cyflwyno'r cyrsiau yn effeithiol, ond o ble daw'r arian ar gyfer y cyfarpar?

Noda Rhys fod ei adran ef mewn cyflwr da ac eisoes wedi cael cryn lwyddiant, gan feithrin dysgwyr sydd wedi parhau ym maes Cyfryngau o bob math. Mae gan yr adran adnoddau da, a hynny i raddau oherwydd fod staff yr adran wedi ariannu rhywfaint o'r cyfarpar. Dywed 'Ewyllys da sy'n cynnal y cyrsiau, a staff sydd wedi ymrwymo'n llwyr iddyn nhw'.Ond ni ddylai athrawon orfod prynu adnoddau i'w disgyblion. Er bod gan yr adran amrywiaeth o adnoddau, mae yna fylchau a phethau y dylid eu cael er mwyn addysgu agweddau penodol, mwy arbenigol. Byddai cael yr adnoddau hynny, yn galluogi'r adran i addysgu sgiliau a fyddai'n werthfawr iawn i'r dysgwyr wrth iddynt ystyried gyrfa yn y maes.

Mae meithrin dysgwyr sydd â sgiliau yn y maes hwn yn hynod werthfawr o safbwynt y Gymraeg. Os na all ysgolion cyfrwng Cymraeg gyflwyno agweddau ymarferol y cymhwyster, byddwn yn amddifadu ein disgyblion o gyfleoedd cyffrous a hefyd yn amddifadu'r proffesiwn o bobl ifanc dawnus a thalentog.


Mae Rhys yn apelio at unrhyw un yn y diwydiant sgrin ac yn gofyn:

“ Os ydych yn gweithio yn y diwydiant sgrin, pan fydd eich sefydliad yn ymddeol offer cynhyrchu, meddyliwch am ysgol cyn iddo fynd i gael ei waredu. Sain, goleuo, cynhaliaeth camera, monitro a storio. Mae oedran a chyflwr cosmetig yn cyfrif llawer llai nag y byddech yn ei dybio. ”

Nawr yw'r amser i ystyried ffynonellau ar gyfer adnoddau ar gyfer y cyrsiau galwedigaethol newydd. Tybed a oes arian ar gael yn rhywle?

Rwy'n siŵr y byddai athrawon eraill sy'n bwriadu cyflwyno'r cwrs newydd hwn, yn croesawu cynnig Rhys:

“ Rwy' hefyd yn fwy na pharod i rannu ein cynlluniau gwaith, beth sy'n gweithio, beth sydd ddim, ac enghreifftiau o waith ein disgyblion. Rydym eisoes yn gwneud hyn o fewn y clwstwr bach o ysgolion uwchradd Cymraeg yn ne Cymru, ac mae'r rhwydwaith yn ffynnu am ein bod yn helpu ein gilydd. ”



Dod i adnabod....

RYAN JENKINS

Un o Ynysybwl, ger Pontypridd yw Ryan Jenkins yn wreiddiol a bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Wedi iddo gwblhau ei arholiadau TGAU, symudodd Ryan i Nottingham ac arwyddo cytundeb proffesiynol gyda thîm pêl-droed Nottingham Forest. Treuliodd bedair blynedd gyda Nottingham Forest, cyn penderfynu rhoi'r gorau i chwarae pêl-droed yn broffesiynol. Dychwelodd i Gymru, a bu'n fyfyriwr yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC), Prifysgol Metropolitan Caerdydd, erbyn hyn. Yno cwblhaodd gwrs gradd a chymhwyso i fod yn athro. Gwnaeth gyfnod ymarfer dysgu yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac fe'i penodwyd i'w swydd gyntaf fel athro yn yr ysgol honno yn 2008. Enillodd gymhwyster CPCP (Cymhwyster Proffesiynol Cymru ar gyfer Penaethiaid) yn 2022. Mae e'n dal yn dysgu yn Ysgol Cwm Rhymni ac erbyn hyn yn Ddirprwy Bennaeth yr ysgol. Er iddo adael byd pêl-droed fel chwaraewr proffesiynol, mae pêl-droed yn dal i chwarae rhan bwysig iawn yn ei fywyd. Ers mis Mehefin 2022, ef yw rheolwr tîm cyntaf Clwb pel droed Met Caerdydd ac mae'n cyfuno ei swydd fel athro a'i ddiddordeb angerddol mewn pêl-droed. Enillodd gymhwyster hyfforddi o'r safon uchaf, sef yr UEFA Pro License, yn gynharach eleni.

Hoff le yng Nghymru a pham:
Gwbert, Aberteifi. Gwyliau teuluol gyda ffrindiau mewn ardal Gymreig, heb ormod o dwristiaeth (eto!)

Byw neu farw – pwy fuasech chi'n hoffi cwrdd i gael sgwrs dros baned?
Lionel Messi



Hoff bryd bwyd:
Unrhywbeth Eidalaidd

Y ffilm gorau i chi ei weld:
The Blind Side

Y perfformiad gorau i chi ei weld:
Andrea Bocelli - yn fyw, yn Leeds
Lionel Messi yn sgorio Hat trick yn fyw i Barcelona yn y Nou Camp

Pe baech yn cael newid un peth yn system addysg Cymru, beth fyddai hwnnw:
Cyllido ysgolion yn well, yn enwedig wrth ystyried y nifer o ddysgwyr sydd angen cefnogaeth ddwys o fewn ysgolion.

Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am eich swydd:
Creu perthynas gyda'r disgyblion a siarad â gymaint ohonynt ag sy'n bosib bob amser egwyl a chinio.

Yr athro/athrawes a ddylanwadodd fwyaf arnoch a pham:
Mr Gwydion Lewis - Athro Addysg Gorfforol yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Model rôl arbennig a oedd yn medru ysbrydoli pawb, ennill parch pob disgybl ac aelod o staff a chynnal safonau uchel mewn modd cadarnhaol

Y CYNLLUN LLYTHRENNEDD A RHIFEDD SYLFAENOL

Ddechrau mis Medi, cyhoeddwyd canlyniadau profion PISA 2025 ac nid oedd y canlyniadau yn newyddion da i Gymru. Profion sy'n digwydd bob tair blynedd yw'r profion PISA ac mewn rhai cylchoedd maent yn cael eu hystyried yn llinyn mesur pwysig o berfformiad systemau addysg. Mae'r profion hyn yn profi sgiliau mathemateg, darllen a gwyddoniaeth. Bob tro y cynhelir y profion, rhoddir pwyslais penodol ar un o'r tri maes a'r tro hwn gwyddoniaeth oedd yn cael y sylw pennaf.Eleni cymerodd 113 o ysgolion Cymru ran yn y profion hyn.

Ceir dadansoddiad o ganlyniadau Cymru yn y profion hyn drwy ddilyn y ddolen isod:

Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) adroddiad cenedlaethol: 2025 | LLYW.CYMRU

Rhaid cofio nad yw PISA yn gallu cipio'r darlun cyflawn a rhoi darlun llawn o safonau dysgwyr, ond eto i gyd mae'n bwysig cydnabod fod angen ystyried y canlyniadau a rhoi sylw i'r hyn y gellir ei wneud i wella a gwneud yn siŵr fod disgyblion Cymru yn cael y canlyniadau gorau posibl.

Mewn ymateb i'r canlyniadau, dywedodd Anna Brychan, Gweinidog Addysg Cymru y byddai'n cyhoeddi cynllun llythrennedd a rhifedd er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y disgwyliadau a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion. Y nod yw y bydd y cynllun yn arwain at wella safonau llythrennedd a rhifedd. 'Erbyn diwedd tymor y Senedd hon, rydym am weld gwelliant parhau o ran deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru.'

Beth sydd yn y Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol?

Ymateb rhai wrth glywed am gynllun o'r fath yw ei fod yn gweithio yn erbyn meddylfryd y Cwricwlwm Cenedlaethol, ond yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'n ategu'r Cwricwlwm, drwy wneud yn siŵr fod sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu hymgorffori ar draws pob maes cwricwlwm.

Yr Egwyddor Sylfaenol

*Rhoi cyfle i bob plentyn yng Nghymru (gan gynnwys y mwyaf abl a'r rhai ag ADY) gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, gan feddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd cryf.

PRIF ELFENNAU'R CYNLLUN:



1. DANGOSYDDION CENEDLAETHOL

Dangosyddion darllen a rhifedd newydd ar gyfer Blwyddyn 6.
Cyhoeddi data cenedlaethol rheolaidd i olrhain cynnydd.



2. ASESU

Asesiad gwaelodlin ar gyfer plant sy'n dechrau'r ysgol.
Defnyddio Asesiadau Personol i fesur cynnydd ym Mlwyddyn 6.
Eglurder ynghylch asesu i gefnogi targedu cymorth a thargedau unigol.



3. ADDYSGU A CHYNNWYS

Pwyslais cryf ar Ffoneg Synthetig Systematig fel dull addysgu darllen.
Canllawiau clir ar yr hyn y dylai dysgwyr ei ddysgu a phryd.
Cefnogaeth broffesiynol trwy bartneriaid cenedlaethol a lleol.



4. CEFNOGI DYSGWYR

Rhoi sylw cynnar i ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol.
Pwyslais ar bontio rhwng cynradd ac uwchradd.
Mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi.



5. MYNEDIAD AT LYFRAU DARLLEN

Buddsoddiad mewn llyfrau o ansawdd uchel i ysgolion.
Rhaglenni mentora darllen a phrosiectau mwynhad darllen.

Y PUM SYLFAEN

Yn ôl y ddogfen swyddogol, mae'r cynllun yn seiliedig ar bum sylfaen allweddol:

1. Rhieni a gofalwyr – cefnogi datblygiad iaith a darllen yn y cartref.
2. Ymarferwyr blynyddoedd cynnar (0–3) – meithrin sgiliau iaith a rhifedd cynnar.
3. Athrawon ac ymarferwyr addysg (3–16) – darparu addysgu o ansawdd uchel.
4. Arweinwyr ysgolion a lleoliadau – gosod cyfeiriad strategol clir.
5. Partneriaid cymorth – darparu hyfforddiant, adnoddau a data.

AIL-GYCHWYN ADRANNAU ADDYSG BELLACH AC ADDYSG UWCH UCAC-DEWCH I FOD YN RHAN!

Fel Ysgrifennydd Adrannau Addysg Bellach ac Addysg Uwch UCAC, rwy'n bwriadu ail-gychwyn gweithgarwch yr adrannau hyn dros y cyfnod nesaf, ac rwy'n chwilio am aelodau sydd â diddordeb mewn bod yn rhan ohonynt.

Mae'r adrannau yn rhan bwysig o strwythur UCAC ac yn cynnig cyfle i aelodau sydd yn gweithio ym maes addysg bellach ac addysg uwch ddod ynghyd i drafod y datblygiadau, yr heriau a'r materion cyflogaeth sy'n effeithio ar y sectorau.

Y bwriad yw creu fforwm lle gall aelodau rannu profiadau, codi materion sydd o bryder iddynt, a thrafod datblygiadau cyfredol ym maes addysg bellach ac addysg uwch. Bydd hyn hefyd yn gyfle i sicrhau bod llais a phrofiadau aelodau yn y sectorau hyn yn cael eu clywed o fewn UCAC. Yn fwy na dim, hoffwn i'r adrannau gael eu llywio gan yr aelodau eu hunain.

Pa faterion sydd angen sylw? Beth sy'n digwydd yn eich gweithle chi? A sut gall UCAC gynrychioli a chefnogi aelodau yn y sectorau hyn yn fwy effeithiol?

Bydd y ddwy adran yn cyfarfod ar Teams dair gwaith y flwyddyn.



Felly, beth am ymuno â ni?

Os ydych yn gweithio ym maes addysg bellach neu addysg uwch ac â diddordeb mewn bod yn rhan o'r adran berthnasol, byddwn yn falch iawn o glywed gennych.
Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol – dim ond diddordeb mewn rhannu syniadau, trafod y materion sy'n bwysig i aelodau, a helpu i lunio gwaith yr adran.

Cysylltwch â mi os hoffech ymuno, cyfrannu at y trafodaethau, neu gael rhagor o wybodaeth.

Bydd croeso cynnes i aelodau sydd am gymryd rhan a helpu i ddatblygu gwaith yr adrannau.

Mererid Lewis Davies
mererid@ucac.cymru

EDRYCH YN ÔL I'R GORFFENNOL

- Rhun Llwyd

Fy nhad sydd i ddiolch am glirio allan ei "stydi "a darganfod copi o Hanes UCAC: Cyfrol y Dathlu 50 Oed. Wrth bori drwy'r tudalennau, roeddwn yn teimlo ychydig allan o le heb wisgo tei nac edrych yn smart wrth sbio ar yr hen luniau. Yno roedd y Llywyddion, yr Is-lywyddion, yr Ysgrifenyddion Cyffredinol, y Trysoryddion a Chadeiryddion neu Swyddogion y Gynhadledd. Roedd golwg ychydig yn fwy hamddenol i'w gweld erbyn yr 1980au, ond nid edrych ar y lluniau yn unig oeddwn i.

I'w weld yn y paragraff cyntaf oedd hanes cyfarfod yng Nghaerdydd ym Medi 1926 gan "nifer o Gymry brwd". Roedd hynny'n peri ychydig o grafu pen, gan mai 1940 oedd y flwyddyn a ddathlid fel sefydlu UCAC yn swyddogol. Yn swyddfa Aberystwyth mae hen blacardiau a phosteri balch i'w gweld yn nodi'r dyddiad hwnnw. Wrth ddarllen ymlaen, daeth y dyddiad Ionawr 1928 i'r amlwg, sef cyhoeddi rhifyn cyntaf Yr Athro. Roedd hynny wedi digwydd ar ôl penderfynu bod angen ffurfio Undeb Athrawon Cymreig er mwyn "rhoi lle priodol i'r Gymraeg yng nghyfundrefn addysg Cymru".

Wrth ddarllen y rhifyn hwnnw yn y Llyfrgell Genedlaethol, roedd egwyddorion a safbwyntiau'r aelodau sylfaenol, ynghyd â nifer o syniadau ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Gan mlynedd yn ôl, prin iawn oedd yr adnoddau oedd ar gael i athrawon. Ac er bod llu o ffynonellau ar gael heddiw, mae rhai aelodau wedi sôn da byddai dod ar draws syniadau defnyddiol ar gyfer y dosbarth yn Yr Athro eto.



Yn ddiweddar, cefais y cyfle i ddarllen a dewis rhai o erthyglau Yr Athro i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn y gorffennol, roedd hi'n hawdd gadael i'r cyhoeddiadau hyn basio heb eu darllen yn llawn. Ers y cychwyn cyntaf, mae rhifyn y gynhadledd wedi bod yn gofnod o'r pethau oedd yn prysur ddiddori ac ysgogi trafodaeth ymhlith aelodau. Mae hefyd wedi bod yn gofnod o sut mae pawb yn pryfio! Diolch yn fawr i'r rhai sydd wedi cyfrannu at baratoi'r rhifynnau hyn dros y blynyddoedd, ac mae'n fawr obeithio y bydd Yr Athro yn parhau i gael ei gyhoeddi am flynyddoedd lawer eto.

Fel yr oedd yn wir i'r sefydlwyr cynnar, mae profiadau gwerthfawr i'w cael wrth gyfrannu at waith UCAC. Cofiwch fod hawl i amser y tu allan i'r dosbarth ar gyfer cyfleoedd o'r fath. O fod y cyswllt cyntaf fel Cynrychiolydd Ysgol hyd at eistedd ar y Cyngor Cenedlaethol bob tymor, mae cyfleoedd amhrisiadwy i gymryd rhan. Yn ddiweddar, bu hefyd gyfleoedd am swyddi llawn boddhad yn swyddfa UCAC. Ac yn ffodus, nid yw tei yn angenrheidiol.


Yn sgil sylwadau Rhun am ddechreuadau'r Athro, dyma benderfynu edrych yn ddyfnach i'r gorffennol....

UAC ac UCAC –
Undeb Athrawon Cymreig ac Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Trowch y cloc yn ôl gan mlynedd. Mae'n fis Medi – tymor ysgol newydd wedi dechrau ac mae criw o Gymry brwd yng Nghaerdydd yn trefnu cyfarfod â'i gilydd. Does dim byd yn newydd nac yn rhyfedd yn hynny, ond roedd rywbeth yn arbennig iawn am y cyfarfod ar Fedi 19eg, 1926 yn yr YMCA yng Nghaerdyd. Yn wir, oni bai am y cyfarfod hwnnw, tybed a fyddai UCAC yn bodoli o gwbl?

Fore Sadwrn oedd hi a phedwar athro oedd y criw o Gymry. Nid cyfarfod am sgwrs anffurfiol oedden nhw, ond cynnal cyfarfod ffurfiol gyda Chadeirydd ac Ysgrifennydd. Faint o gyfarfodydd o'r fath fyddai'n cael eu cynnal ar fore Sadwrn erbyn hyn? Yr hyn oedd ar eu meddwl oedd a ddylid ffurfio rhyw fath o undeb a fyddai'n rhoi lle priodol i'r Gymraeg yng nghyfundrefn addysg Cymru. Nid undeb athrawon arferol oedd hwn i fod, ond undeb ar gyfer ymdrin ag un mater yn unig, sef yr iaith Gymraeg. Byddai'r aelodau, felly, yn aelodau o undebau athrawon Prydeinig, ond yn ogystal byddent yn cefnogi'r undeb newydd hwn ar faterion yn ymwneud â'r iaith.

Penderfynwyd ar ddiwedd y cyfarfod ym mis Medi eu bod yn mynd ati i ffurfio'r undeb, sef **UNDEB ATHRAWON CYMREIG.**


Siaradwyd gan Mr Roland Thomas MA. Rhymni,
Mr Griffith. J. Roberts. Heolgerrig Merthyr a
Mr J. Ellis Williams. Pontypridd a phenderfynwyd
"Ein bod yn ffurfio yn Undeb"

Cofnodion cyfarfod Medi 1926 lle penderfynwyd ffurfio undeb i ofalu'n arbennig am y Gymraeg yn yr ysgolion.

Ddau fis yn ddiweddarach, ym mis Tachwedd 1926, trafodwyd argraffu cylchgrawn Cymraeg i Athrawon Cymru. Barn y criw bach oedd wedi dod ynghyd oedd y byddai cylchgrawn o'r fath yn help i 'achub a diogelu'r Gymraeg yn ein hysgolion'. Roedd angen arian er mwyn cynhyrchu'r cylchgrawn a'r farn oedd y byddai'n fuddsoddiad da pe bai nifer dda o'r aelodau yn cyfrannu punt yr un tuag at y cylchgrawn. (Yn nhermau 2026, byddai hynny tua £50-£70 i bob unigolyn). Gosodwyd nod o £100 a chafwyd addewidion am £22 mewn cyfarfod ym mis Rhagfyr 1926. Yn ddiweddarach, penderfynwyd mai enw'r cylchgrawn hwn fyddai 'Yr Athro'.

Roedd yr Undeb Athrawon Cymreig yn awyddus iawn i roi statws i'r Gymraeg yn ysgolion Cymru, gan nodi 'fod 'llawer o athrawon oeraidd, difrwd a diamcan yn ein hysgolion' a nododd W.J Gruffydd mewn araith nad oedd y Gymraeg i lawer 'ond 'curiosity". Roedd pwyslais ar sicrhau fod y Gymraeg yn iaith y cartref a'r ysgol 'Rhaid gwneuthur y Gymraeg yn iaith yr ysgol os am roddi 'prestige' i'r iaith'.

UAC ac UCAC

Roedd enwau amlwg yn hanes Cymru yn brwydro dros statws y Gymraeg yn ein hysgolion – pobl fel D.J. Williams, Abergwaun a Cassie Davies, Tregaron a oedd yn ddarlithwraig yng Ngholeg y Barri. Roedd ymdeimlad nad oedd digon o athrawon a oedd yn gallu'r Gymraeg ac mewn cyfarfod o'r undeb ym mis Mawrth 1927, mynnai Cassie Davies, y dylid cael rheol bendant bod y Gymraeg yn orfodol i'r sawl a fynnai ddilyn cwrs mewn Coleg Hyfforddi Athrawon.

Roedd yr undeb yn brwydro am weld mwy o athrawon a allai addysgu'r Gymraeg a hefyd at weld y Gymraeg yn cael mwy o statws fel pwnc yn yr ysgolion. Diddorol yw nodi cynnig yng nghyfarfod Hydref 13eg 1928:

'Ein bod yn llwyr argyhoeddedig mai'r cam nesaf o angenrheidrwydd er mwyn sicrhau'r dysgu'r Gymraeg yn fwy effeithiol yn yr ysgolion elfennol yw gosod papurau Cymraeg yn ychwanegol yn lle bod yn ddewisol fel ag y mae'n bresennol; a'n bod yn apelio at bob awdurdod a gofal addysg uwchraddol i ddilyn esiampl y Rhondda a Chaerfyrddin, trwy osod y gwelliant hwn mewn ymarferiad ar fyrder.'

Mae cyfeiriad hefyd yn y cofnodion at ysgolion yn 'taflu'r Gymraeg allan o'r cwrs gwaith' ac ymateb yr undeb i ddigwyddiadau o'r fath.

Roedden nhw hefyd yn gresynu at y modd yr anwybyddid Cymru gan y Bwrdd Addysg, wrth beidio â dewis Cymro ar Bwyllgor Adrannol y Bwrdd a oedd yn edrych ar fater athrawon mewn ardaloedd gwledig.

Bu'r undeb yn brwydro'n ddyfal ac ymddengys iddynt gael rhywfaint o ddylanwad. Wrth ymgymryd â chadair Undeb Athrawon Cymreig ym 1931, dywedodd Mr W H Owen, Ysgol Craig yr Eos ei fod yn ei theimlo'n anrhydedd ac yn 'rhagorfraint i gael esgyn i lywyddiaeth Undeb a oedd eisoes yn rym ym myd addysg Cymreig'. Yng nghofnodion yr undeb yn 1933 nodir fod 'barn yr undeb yn cyfrif heddiw yng nghylchoedd swyddogol Addysg Cymru'.

Wrth ddarllen llyfr cofnodion yr undeb, mae'n ddiddorol nodi fod rhai brwydrau o ran y Gymraeg yn parhau, bod brwydrau eraill wedi newid o ran y Gymraeg a bod yna rai brwydrau sydd wedi eu hennill.

Er mai ym 1940 y sylfaenwyd UCAC, eto mae'r gwaith a wnaed gan Undeb Athrawon Cymreig, gan ddechrau ar y gwaith ym 1926 yn un o'r hadau a blannwyd ac a arweiniodd at sefydlu UCAC.

ABSENOLDEB MAMOLAETH, TADOLAETH A RHIANT A RENNIR



Cofiwch ein bod yn cynnig **AELODAETH HANNER PRIS** yn ystod cyfnod o Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth/Rhiant a Rennir os ydych yn talu trwy ddebyd uniongyrchol.



Er mwyn manteisio ar y cynnig hwn, mae'n angenrheidiol eich bod yn rhoid gwybod i ni:

aelodaeth@ucac.cymru **01970 639950**

Nid yw UCAC yn cynnig ad-daliad os nad ydych wedi ein hysbysu o'r newid o flaen llaw.

PWT O ATGOFION

Gwenan Creunant

Mae Gwenan Creunant yn un o Ymddiriedolwyr UCAC. Bu ei rhieni yn aelodau gweithgar o'r Undeb a bu ei thad yn Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, yn Ymddiriedolwr ac yn Olygydd yr Athro.

Ni allaf gofio cyfnod pan nad oedd y gair UCAC yn gyfarwydd i mi! Efallai nad oeddwn yn deall yn iawn ystyr y llythrennau am flynyddoedd lawer ond gwyddwn eu bod yn golygu llawer iawn i'm rhieni ac yn codi'n aml iawn mewn sgyrsiau. Fe glywais rywdro fod yr AC yn golygu Alun Creunant, a hynny'n creu mwy o benbleth am y ddwy lythyren gyntaf!



Alun a Megan Creunant Davies yng Nghynhadledd UCAC yn Llanbedr Pont Steffan 1958

Roedd Cymru a'r Gymraeg yn bwysig iawn i'm rhieni, a hynny ymhob rhan o fywyd. A phan ddechreuodd Dad ar ei fywyd fel athro, yn Llundain i ddechrau, cyn dod nôl i Dregaron ac yna'n brifathro yn Llangeitho yn ifanc iawn, roedd ymaelodi ag Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yn gam hollol naturiol iddo. Clywais stori hefyd fod rhai o ddisgyblion ei ddosbarth yn gorfod rhoi amser weithiau i lanw amlenni ar gyfer aelodau UCAC!! Mae'n debyg mai marwolaeth sydyn Gwyn Daniel, Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf UCAC, yn 1960, a dynnodd Dad i ganol gwaith yr Undeb, ac yntau'n cymryd nifer o'r dyletswyddau oedd angen eu cyflawni ar frys. Roedd e byth a hefyd mewn pwyllgorau UCAC, roedd yn ymweld yn gyson â swyddfeydd UCAC, ac roedd mynychu'r Gynhadledd flynyddol yn angenrheidiol. Cofiaf ein bod fel teulu weithiau yn mynd i aros yn rhywle oedd yn agos at leoliad y gynhadledd – a ninnau fel plant weithiau yn gorfod eistedd drwy sesiynau (hir!) o drafod gwahanol gynigion. A chof plentyn o lond lle o athrawon, llawer o sgwrsio a chwerthin a hwyl, a nifer o bobl yn gwisgo'n smart iawn!

Er na pharhaodd Dad yn ei yrfa fel athro, a symud ganol y chwedegau i redeg Cyngor Llyfrau Cymru, bu'n weithredol gydag UCAC tan ddiwedd ei fywyd, ac yn gefnogol iawn i waith yr Undeb. Yn wir, pan symudodd fy rhieni i fyw ym Maes Lowri wedi ymddeol, clywais mam yn cwyno sawl tro fod PenRoc yn rhy agos o lawer! Bu'n fraint i minnau dros y blynyddoedd diwethaf gael bod yn un o Ymddiriedolwr yr Undeb a pharhau i gefnogi'r gwaith hollbwysig a wneir gan UCAC. A gallaf eich sicrhau fy mod bellach yn gwybod yn iawn ystyr y pedair llythyren bwysig yna!

Y BYD ADDYSG BELLACH

Guto Jones, Is-Lywydd UCAC

O'i natur mae addysg bellach yn gyfnod addysg amrywiol iawn. Sail yr amrywiaeth hyn yw'r ystod o gyrsiau sy'n gwneud mynnu cwricwlwm eang ein colegau addysg bellach yng Nghymru. Tebyg i ystôl neu ysgol, mae colegau addysg bellach yn cynnig cyrsiau lefel llwybrau i gyrsiau ôl-raddedig.

Mae'r rhain yn amrywio o gyrsiau pur alwedigaethol i bur academaidd, gyda'r mwyafrif o gyrsiau yn disgyn rhywle rhwng y ddau begwn. Ymysg eraill, bydd ffermwyr, peirianwyr, adeiladwyr, entrepreneurs, steilydd gwallt a chogyddion y dyfodol i gyd yn cael eu haddysgu a'u hyfforddi yn ein colegau. Mae myfyrwyr yn mynychu'r coleg yn llawn amser, rhan amser ac ar sail rhyddhau dyddiol. Yn ogystal, mae colegau addysg bellach yn gweld gwerth mawr mewn meithrin perthnasau clòs gyda'r cymunedau y gwreiddir nhw ynddynt. O ganlyniad, yn aml, mae'r colegau yn cynnig cyrsiau mewn lleoliadau cymunedol fel neuaddau pentref a chanolfannau cymdeithasol. Cyrsiau dysgu am bleser yw y rhain fel rheol - gyda galw cryf am gyrsiau dysgu Cymraeg.



Mae technoleg yn creu cyfleoedd yn ogystal â heriau i'r byd addysg bellach. Heb os, deallusrwydd artiffisial yw'r dechnoleg sy'n effeithio fwy a fwy ar gymdeithas ac yn fwy penodol addysg. Nid oedd felly yn syfrdan mai deallusrwydd artiffisial oedd un o brif themâu a phwyntiau trafod Cynhadledd Flynyddol UCAC yn 2026. Mae'r dechnoleg hon sy'n ddibynnol ar ganolfannau data mawr yn cynnig cyfloedd i gefnogi a hwyluso dysgu ond hefyd yn medru amharu ar allu myfyrwyr i feddwl yn annibynnol. Mae posibilrwydd deallusrwydd artiffisial yn gyffrous a phryderus yn yr un modd - ac nid yw'r dechnoleg wedi llawn ddatblygu chwaith.


Gellir dadlau mai system addysg heddiw fydd system economaidd yfory. Ac o ganlyniad, mae meithrin dolenni gyda diwydiant yn hynod bwysig yn y sector addysg bellach. Golyga hyn ei bod yn ofynnol i addysgwyr colegau gael datblygiad proffesiynol sy'n cyflawni'r nod hyn.
Fel rheol, cymdeithasau pwnc neu broffesiynol yw prif ddull cryfhau cysylltiadau gyda diwydiant. Mae'r 'Economics, Business and Enterprise Association' yn esiampl dda o hyn.
Gyda'i ddarpariaeth o gylchgrawn tymhorol llawn erthyglau diddorol, rhaglen flynyddol o ddatblygiad proffesiynol a chynllun uwch-gymrodoriaeth (senior fellowship) yn cadw addysgwyr busnes ac economeg yn hynod gyfredol yn eu meysydd arbenigedd.

Mae'n deg dweud fod gan golegau addysg bellach ran allweddol i alluogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae mwy o ddysgu dwyieithog yn mynd ymlaen mewn darlithfeydd, dosbarthiadau, gweithdai, salonau a cheginau colegau addysg bellach. Clywir mwy a mwy o sgwrsio Cymraeg cymdeithasol rhwng myfyrwyr ar goridorau a ffreutur campysau ein colegau addysg bellach yn ogystal. Rhywbeth cadarnhaol iawn.

Mae'n deg dweud nad yw'r byd addysg bellach byth yn ddiflas!

Cadw rhieni yn y Lŵp

- Negeseuon brys / pwysig
- Nodyn atgoffa
- Llythyron
- Calendr digwyddiadau
- Dogfennau pwysig



25% i ffwrdd

YSGOL
£299
y flwyddyn

TEULUOEDD
Am ddim
iOS ac Android

25% o ostyngiad cyn Rhagfyr 18, 2026!

Ebost: lwp@goiawn.co

lwp.cymru

DARLLEN YN Y DOSBARTH

Pum syniad bach ar gyfer darllenwyr anfoddog

Nid diffyg gallu sy'n dal darllenwyr anfoddog yn ôl, ond diffyg rheswm i ddechrau. Dyma bum peth bach sy'n gwneud gwahaniaeth mawr – heb gostio ceiniog.

1. **Dilynwch y diddordeb.** Os yw plentyn yn dwli ar dractorau, rhowch ddarn darllen am dractorau. Fe wnaiff ymdrechu drwy ddarn anodd am rywbeth sy'n diddori – ond nid drwy ddarn hawdd am rywbeth annifyr.
2. **Darllenwch gyda nhw.** Does dim byd yn lladd awydd fel baglu drwy ddarn o flaen pawb. Darllenwch ochr yn ochr, neu gadewch i'r sain fynd gyntaf, ac mae'r ofn yn diflannu.
3. **Cadwch y darnau'n fyr.** Mae gorffen testun mewn pum munud yn fuddugoliaeth, a does dim byd yn magu hyder fel llwyddiant. Mae darn hir yn gyfle i roi'r gorau iddi hanner ffordd.
4. **Holwch drwy chwarae.** Does neb yn edrych ymlaen at daflen ddealltwriaeth. Mae cwis sydyn neu gêm fach yn dangos i chi beth sydd wedi glanio – a'r plant yn mwynhau'r broses.
5. **Yr un thema, lefelau gwahanol.** Rhowch yr un stori i'r dosbarth cyfan, ond ar lefel sy'n addas i bob plentyn. Fel hyn, does neb yn colli allan oherwydd eu bod yn darllen y stori hawdd.

DYSGA

PEILOT EDUGEN · AM DDIM

Creu adnodd darllen wedi'i addasu mewn llai na munud

1. Dewis Thema
2. Dewis Lefelau
3. Clicio Adeiladu

Mae EduGen yn ysgrifennu'r testun, yn ei ddarllen yn uchel, ac yn ychwanegu cwis neu gêm – i gyd ar y lefel rydych chi wedi'i dewis. Dim paratoi, dim llungopïo.

Rydym yn agor peilot am ddim i athrawon cynradd y tymor hwn.

Cofrestrwch ddiddordeb:
dysga.net

CYFLWYNO EIN SWYDDOG CYLLID NEWYDD....

IONA BAILEY

Un o ardal Ffair Rhos, ger Tregaron yw Iona Bailey ac mae hi'n dal i fyw yn ei milltir sgwâr. Mae'n un o dair chwaer a'r tair ohonynt yn dal i gyfrannu at gymunedau a bywyd diwylliannol Ceredigion. Ar ôl gadael Ysgol Uwchradd Tregaron, aeth Iona i Goleg Ceredigion, cyn dilyn gyrfa amrywiol mewn busnes gwerthu ceir, y Llyfrgell Genedlaethol a Chyngor Llyfrau Cymru.



Ei diddordeb pennaf yw dangos cŵn mewn sioeau ledled Prydain ac mae wedi cael cryn lwyddiant yn dangos ei chŵn Jack Russell a Chŵn Gwartheg Awstralaidd.

Mae hi'n byw ar fferm, yn fam i dri mab ac yn fam-gu brysur i ddau ŵyr.

Mae Iona yn gweithio i UCAC ers mis Gorffennaf ac rydym yn falch iawn o'i chael yn aelod o dîm UCAC.

BWRDD GOLYGYDDOL

Llywydd Cenedlaethol: Rhun Llwyd
Is-Lywydd: Guto Jones
Ysgrifennydd Cyffredinol: Ioan Rhys Jones
Is-ysgrifennydd Cyffredinol: Mererid Lewis Davies
Cydlynydd Yr Athro: Iona Davies
Dylunydd: Gwenno Griffiths Jones

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at:
Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU neu E-bost: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.
01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru

Diolch am ddarllen 🙂



UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru